# Amdanom ni

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn helpu i ddiogelu poblogaeth amcangyfrifedig o 687,098 o bobl yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr sy’n dod i Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Mae ardal y Gwasanaeth oddeutu 6,150 cilometr sgwâr, yn amrywio o ardaloedd gwledig llai poblog, i ardaloedd trefol â mwy o drigolion; mae hyn yn cynnwys rhwydwaith ffyrdd o 35,119 cilometr ac arfordir sy’n mesur 400 cilometr.

| Arwynebedd ($Km^2$) | Poblogaeth | Anheddau | Eiddo Annomestig | Hyd Ffyrdd (Km) | Ardaloedd Awdurdodau Lleol |
|---|---|---|---|---|---|
| **KM²** |  |  |  |  | Ynys Môn<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Gwynedd<br>Wrecsam |
| **6,150** | **687,098** | **329,382** | **33,606** | **35,119** | |

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi tua 898 o staff mewn rolau gwasanaeth gweithredol a chorfforaethol. Mae 44 o orsafoedd tân ar draws ardal Gogledd Cymru sy'n gartref i amrywiaeth o gerbydau brys ac offer arbenigol, sy'n helpu i gefnogi ein diffoddwyr tân gweithredol mewn digwyddiadau.

DRAFT

| Diffoddwyr Tân Llawn Amser | Diffoddwyr Tân Ar-Alwad | Staff Rheoli | Staff Gwasanaethau Corfforaethol | Nifer y Gorsafoedd Tân | Peiriannau Argyfwng |
|---|---|---|---|---|---|
| **274** | **452** | **31** | **144** | **44** | 54 Peiriant Tân<br>3 Peiriant Ysgol ac Esgynlawr<br>30 o Beiriannau Gweithredol Eraill |
| Yn ôl Cyfrif Pen | Yn ôl Cyfrif Pen | Yn ôl Cyfrif Pen | Yn ôl Cyfrif Pen | | |

*ar 2 Mawrth 2023*

# Diogelu, Atal, Ymateb

Fel gwasanaeth brys rydym ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a 365 diwrnod y flwyddyn i ymateb i ddigwyddiadau brys.

## Ymateb

Mae ein gweithredwyr Ystafell Reoli wedi'u hyfforddi'n drylwyr i gymryd manylion eich galwad frys.






Oeddech chi'n gwybod ein bod ni yn ystod 2022-23 wedi:

- delio â **13,224** o alwadau brys;
- mynychu **5,892** o ddigwyddiadau brys, ac o’r rhain;
- roedd **2,011** yn gysylltiedig â thân;
- roedd **1,209** yn achosion brys nad oedd yn gysylltiedig â thân, a;
- roedd **2,672** yn amlwg yn alwadau diangen pan gyrhaeddwyd atynt;
- mynychu **344** o danau damweiniol mewn cartrefi;
- helpu i ddiffodd **55** o danau yn yr awyr agored.

## Atal

Mae ein timau diogelwch tân ymroddedig yn gweithio mewn cymunedau preswyl i hyrwyddo diogelwch tân.





Oeddech chi'n gwybod ein bod ni yn ystod 2022-23 wedi:

- cwblhau **18,052** o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac o’r rhain;
- roedd **32%** wedi’u hatgyfeirio gan bartner asiantaeth;
- nodwyd bod **6,162** yn achosion risg uchel;
- darparu **139** o sgyrsiau mewn ysgolion i blant a phobl ifanc;
- helpu i chwilio am **34** o bobl wedi mynd ar goll y nodwyd eu bod yn risg uchel.

## Diogelu

Mae ein staff diogelwch tân busnesau arbenigol yn sicrhau bod rheoliadau cyfreithiol yn cael eu bodloni.




Oeddech chi'n gwybod ein bod ni yn ystod 2022-23 wedi:

- cwblhau **XX,XXX** o archwiliadau diogelwch tân ar safleoedd busnes;
- cyflwyno cyfanswm o **XX** o hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau gwahardd a rhybuddion ffurfiol;
- llwyddo i gael **X** erlyniad;
- gweithio'n agos â ffermwyr a thirfeddianwyr i reoli gwaith llosgi dan reolaeth a lleihau galwadau i'r Ystafell Reoli.

DRAFT